

Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Cartrefi Caerffili 2016-2019



Cartrefi Caerffili
Caerphilly Homes



Cyflwyniad

Er mwyn ein galluogi i gyflawni ein diben strategol cyfranogiad tenantiaid...

*"I gael
gwasanaethau wedi'u gyrru gan
denantiaid ac sy'n cael
eu gwella'n barhaus"*

mae'n rhaid deall y byd yr ydynt yn byw ynddo. Mae ein hamgylchedd gweithredu yn peri llawer o heriau a chyfleoedd a thrwy nodi a deall y ddau bydd yn ein galluogi ni i gynllunio'n effeithiol i liniaru'r risgiau a manteisio ar y cyfleoedd.

Deall ein Byd

- Rydym yn gwybod y bydd gwasanaethau wedi'u cynllunio ac wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion tenantiaid:
 - Yn perfformio'n uwch
 - Yn fwy tebygol o wella
 - Yn fwy effeithlon
- Mae'r farchnad dai yn ddeinamig ac yn newid yn gyflym, bydd anghenion a disgwyliadau ein tenantiaid presennol ac yn y dyfodol yn parhau i newid ac mae rhaid i'n hymgysylltu â'n tenantiaid (cwsmeriaid) ddal i fod yn addas i'r diben.
- Mae lefelau adnoddau, gan gynnwys y lefel o incwm rhent yn y dyfodol yn ansicr - bydd teilwra gwasanaethau drwy ymgysylltu â thenantiaid yn anghenraid i sicrhau arbedion effeithlonrwydd gofynnol (Gall cyfranogiad tenantiaid ein helpu i arbed arian a chyflwyno rhagor).
- Mae newidiadau demograffig - rhagamcaniadau proffil oedran/cyfansoddiad aelwyd yn dangos bod y boblogaeth yn heneiddio ac y bydd eu gofyniad gwasanaeth yn newid (rhagamcaniadau poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru).
- Dewisiadau cyfathrebu ac ymgysylltu - bydd y ffordd y mae pobl yn awyddus i gyfathrebu ac ymgysylltu yn parhau i newid. Mae hyn yn cyflwyno heriau a chyfleoedd mewn perthynas â sianeli cyfathrebu electronig.

Ein Hamcanion Strategol

Mae ein hamcanion strategol ar gyfer 2016-19 wedi'u cynllunio i'n galluogi ni i gyflawni ein diben strategol. Mae datblygiad yr amcanion hyn wedi cael ei lywio gan ein dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ein hwynebu.

Amcan 1:

Byddwn yn deall anghenion ein tenantiaid presennol ac yn y dyfodol

- byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â thenantiaid a thenantiaid yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod barn gynrychioliadol
- byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddeall anghenion
- byddwn yn nodi'r dulliau ymgysylltu mwyaf effeithiol

Amcan 2:

Byddwn yn troi'r adborth i mewn i wybodaeth a fydd yn cefnogi gwella gwasanaethau

- byddwn yn darparu Cartrefi Caerffili (y busnes) gyda gwybodaeth i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio i ddiwallu anghenion tenantiaid
- byddwn yn darparu tystiolaeth i'n galluogi i wneud mwy o'r hyn y mae tenantiaid ei eisiau a llai o'r hyn nad oes angen

Amcan 3:

Byddwn yn darparu cyfathrebu effeithiol dwy ffordd rhwng Cartrefi Caerffili a'n tenantiaid

- byddwn yn rhoi gwybod i'n tenantiaid - "Dywedoch... gwnaethom" (adborth ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud â'r wybodaeth rydym yn ei gasglu)
- byddwn yn defnyddio'r technegau cyfathrebu cywir i wneud y mwyaf o ymgysylltiad ein tenantiaid
- byddwn yn archwilio ac yn gweithredu cyfleoedd i wneud y gorau i ymgysylltu drwy sianeli electronig gyda'n tenantiaid

Amcan 4:

Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd gwasanaeth cyfranogiad tenantiaid a diweddarau ein dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth

- byddwn yn mesur effeithiolrwydd cyfranogiad tenantiaid o ran bodloni'r diben
- byddwn yn monitro a deall gwerth am arian ein gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid

Monitro ac Adolygu

Mae'n bwysig i adolygu ein cynnydd yn erbyn yr amcanion strategol yn barhaus i sicrhau bod y Strategaeth yn cyflawni ei bwrpas.

Byddwn yn defnyddio'r mesurau perfformiad canlynol i fesur effeithiolrwydd y sefydliad o ran cyflawni ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid

1. Nifer y tenantiaid yn cymryd rhan yn ystyrlon (cymryd rhan mewn ymgynghoriad gwella gwasanaeth)
2. Boddhad gyda "gwrando ar fy safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt"
3. Sampl gynrychioliadol: oedran cyfartalog y tenantiaid yn cymryd rhan
4. Tystiolaeth bod gwasanaethau yn gwella

Cynllun Gweithredol

Bydd y Strategaeth yn cael ei chefnogi gan Gynllun Gweithredol blynyddol i gyflawni amcanion strategol dros y 3 blynedd. Bydd y Cynllun Gweithredol yn seiliedig ar egwyddorion SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig a gydag Amserlenni), er mwyn sicrhau bod yr amcanion yn cael eu bodloni.

Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Prif egwyddor y Strategaeth yw i gynhyrchu tystiolaeth gynrychioliadol. Er mwyn sicrhau hyn, mae'n rhaid i'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth sicrhau mynediad cyfartal i bob tenant ac felly ni fydd yn peryglu hawliau hynny dan ddeddfwriaeth gyfredol Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg yng Nghymru a Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ei hun 2016-2020. Bydd y gweithgareddau penodol yn cael eu cefnogi gan asesiadau effaith unigol.